


# Digartrefedd a Llety Dros Dro yng Nghymru: Tueddiadau Diweddar a Phwysau ar y System[1]

## 05 Chwefror 2026[2]

## Tabl Cynnwys


1. **Cyflwyniad a chrynodeb** .......... 2
2. **Poblogaeth mewn Llety Dros Dro** .......... 4
3. **Tueddiad mewn Llety Dros Dro** .......... 4
4. **Symud i Lety Hirdymor** .......... 5
5. **Achosion o Leoliadau Digartrefedd mewn Llety Dros Dro** .......... 7
6. **Asesiad Cyffredinol** .......... 9


[1] Mae'r ddogfen hon yn defnyddio ystadegau swyddogol drwyddi draw os na nodir fel arall. Daw'r ystadegau o https://stats.llyw.cymru/cy-GB, a gyrchwyd ddiwethaf ar 5 Chwefror 2026.

[2] Cafodd fersiwn hwn yr adroddiad ei ddiweddaru o'i fersiwn gynharach ar 21 Ionawr 2026, a gyhoeddwyd ar wefan CHC

# 1. Cyflwyniad a chrynodeb

Dengys yr ystadegau diweddar ers mis Ebrill 2023 fod nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro wedi gostwng yn raddol o'i frig ym mis Chwefror 2024. Ynghyd â hyn, cafodd mwy o dai fforddiadwy eu hadeiladu yn 2024-25 nag yn unrhyw flwyddyn ers y dechreuwyd cofnodi data yn 2007-2008. Mae hyn yn bwysig gan fod y cyflenwad o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn ffactor strwythurol allweddol yng nghyd-destun tymor hirach digartrefedd a sefydlogrwydd tai.

**Er y cynnydd hwn, mae nifer y bobl, sy'n cynnwys plant, sy'n byw mewn llety dros dro yn parhau'n gyndyn o uchel ac mae gostyngiadau wedi digwydd yn raddol yn hytrach nag yn gyflym.**

**Mae'n andwyol fod cyfradd uwch fesul pen o blant nag o oedolion yn byw mewn llety dros dro.**

Gwyddom y gall hyn gael effeithiau tymor byr a hirdymor sylweddol ar iechyd, llesiant ac addysg.[3]

Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi data ar lety dros dro o flynyddoedd diweddar i ganfod tueddiadau. Y canfyddiadau allweddol yw:

- Gostyngodd nifer yr unigolion mewn llety dros dro gan 5 y cant ym mis Tachwedd 2025, flwyddyn ar flwyddyn; fodd bynnag, mae'r gostyngiadau misol cyfartalog yn araf, gyda chyfartaledd o 0.3 y cant dros un mis ar ddeg cyntaf 2025.
- Roedd un ym mhob 223 o blant mewn llety dros dro ym mis Tachwedd 2025, o gymharu ag un ym mhob 354 o oedolion.
- Mae cyfradd sylweddol o bobl newydd yn parhau i fynd i lety dros dro – ar gyfartaledd, roedd bron 12 y cant o gyfanswm nifer yr unigolion mewn llety dros dro yn newydd-ddyfodiaid dros y 23 mis diwethaf.
- Roedd 19 y cant o bobl a aeth i lety dros dro ym mis Tachwedd 2025 a 15 y cant ym mis Hydref 2025 eisoes wedi bod mewn llety dros dro o'r blaen o fewn y 12 mis diwethaf. Mae lleoliadau fwy nag unwaith mewn llety dros dro yn gyffredin.

Mae'r data a gasglwyd yn dangos y gall fod gwahanol resymau posibl pam fod llety dros dro wedi parhau mor gyndyn o uchel mewn blynyddoedd diweddar:

- **Mae'r cyflenwad o dai cymdeithasol wedi cynyddu ond mae mwy o alw nag o gyflenwad ar gael:** mae pethau fel oedi mewn cynllunio a chydsynio, chwyddiant mewn cost deunyddiau a nifer lai o gontractwyr wedi llesteirio cyflenwi cartrefi newydd. Ar hyn o bryd, dim ond cynnal y pwysau presennol ar y system yn hytrach na'i liniaru mae'r cyflenwad. Mae gostyngiadau parhaus mewn llety dros dro yn dibynnu ar barhau i gyflenwi tai fforddiadwy.

[3] https://www.bevanfoundation.org/resources/temporary-accommodation-children/

- **Mae darparwyr tai a chymorth wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion cymhleth ac aelwydydd gydag anghenion cymorth, ond nid yw cyllidebau wedi dal eu tir:** canfu dadansoddiad gan CHC a Cymorth Cymru fod angen cynnydd o 12 y cant i gymorth tai ac atal yng nghyllideb 2026/27 i barhau i ddarparu gwasanaethau a thalu'n briodol i staff[4]. Fodd bynnag, mae'r gyllideb derfynol yn dyrannu cynnydd cronnus o ychydig dros 3 y cant gan roi pwysau pellach ar yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r ddarpariaeth hon yn hanfodol wrth atal pobl rhag dod yn ddigartref a chynnal tenantiaethau yn y tymor hirach.
- **Mae nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref fwy nag unwaith yn dal yn rhy uchel:** dangosodd y data misol diweddaraf fod 19 y cant (241) o'r 1,289 o'r rhai mewn llety dros dro yn unigolion oedd wedi bod yn ddigartref fwy nag unwaith. Gall hyn ddangos heriau mewn mynediad i wasanaethau arbenigol i helpu pobl i gadw eu llety, p'un ai yw hynny yn iechyd meddwl, anhwylder defnyddio sylweddau neu wasanaethau eraill. Gall cynlluniau tebyg i Tai yn Gyntaf fod yn hanfodol wrth sicrhau nad oes neb yn profi digartrefedd fwy nag unwaith.
- **Pwysau costau byw:** yn arbennig, mae chwyddiant ym mhrisiau bwyd, sydd yn 3.5 y cant, a rhenti preifat a gynyddodd gan 5.7 y cant ym mis Rhagfyr 2025[5], yn rhoi straen ariannol ar aelwydydd.

Mae'r data yn dangos darlun heriol, ond mae arwyddion o obaith y gallwn adeiladu arnynt ac mae'n rhaid i ni wneud hynny.

Wrth i ni edrych ymlaen at yr etholiad, mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn gofyn i bob plaid wleidyddol i wneud i blant sy'n byw mewn llety dros dro, yn arbennig mewn llety gwely a brecwast, fod yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol.

## Mae hyn yn alwad am weithredu: rydym angen cynllun dewr a chyraeddadwy i roi diwedd ar argyfwng tai Cymru.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru osod map trywydd ar gyfer cyflenwi 60,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol dros 10 mlynedd, fel bod 20 y cant o'r holl gartrefi yng Nghymru yn fforddiadwy. Mae'n rhaid i'r map trywydd hwn nodi camau gweithredu i gynyddu capasiti i gyflenwi flwyddyn ar flwyddyn, fel y gallwn ateb anghenion tai cyfredol a dyfodol ym mhob cymuned.

Mae'n rhaid i hyn gael ei seilio ar ddealltwriaeth glir o anghenion tai a chymorth, fydd yn adeiladu ar ac a fydd yn sbardun i'r cynnydd clir a wnaed hyd yma. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r nifer o bobl sy'n mynd i lety dros dro, yn

[4] HM-report-WG-Budget-26-27-CYM-1.pdf
[5] Mynegeion Chwyddiant a Phrisiau, Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyrchwyd ddiwethaf ar 20 Ionawr 2026.

cynnwys fwy nag unwaith, a chyfradd lleoliadau mewn llety hirdymor addas. Drwy adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy, gallwn newid bywydau.

Drwy fuddsoddi yn ein tai presennol, rydym yn cadw tenantiaid yn ddiogel a chynnes. Drwy roi blaenoriaeth i gymorth, rydym yn cadw pobl yn eu cartrefi ac yn helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Os ydym yn sbarduno'r cynnydd mewn momentwm, gallwn roi diwedd ar yr or-ddibyniaeth ar lety ansawdd dros dro o ansawdd isel ac ansicr. Gallwn ddychwelyd gobaith ac ailadeiladu dyfodol ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

## 2. Poblogaeth mewn Llety Dros Dro

Roedd 10,865 o unigolion mewn llety dros dro ym mis Tachwedd 2025, i lawr o 11,466 ym mis Hydref 2024 (Ffigur 1), gostyngiad o 5 y cant.  O'r rhain, cofnodwyd 2,429 o blant 16 oed a iau ym mis Tachwedd 2025, o gymharu â 2,823 ym mis Tachwedd 2024, gostyngiad o 14 y cant. Er fod plant yn nifer absoliwt llai nag oedolion, maent yn profi llety dros dro ar gyfradd fesul pen uwch nag oedolion.

Wedi'i fynegi fel cyfran o'r boblogaeth, roedd 0.28 y cant o oedolion, neu tua un ym mhob 354 o oedolion, yn byw mewn llety dros dro ym mis Tachwedd 2025. Ymysg plant dibynnol dan 16 oed, roedd 0.45 y cant, neu tua un ym mhob 223 o blant, yn byw mewn llety dros dro. Mae'r ffigurau hyn yn dangos maint defnydd llety dros dro ledled Cymru a'r ddibyniaeth barhaus arno ar gyfer lletya teuluoedd gyda phlant.

Mae ystadegau ar hyd arhosiad mewn llety dros dro ar gael ar lefel aelwyd, nid ar lefel unigol. Yn seiliedig ar yr ystadegau sydd ar gael, ar ddiwedd chwarter 1 2025, roedd tua 41 y cant o aelwydydd mewn llety dros dro wedi bod yno am chwe mis neu fwy, yn cynnwys tua 18 y cant oedd wedi bod yno am fwy na blwyddyn.

## 3. Tueddiad mewn Llety Dros Dro

Yn gyffredinol, bu nifer yr unigolion sy'n byw mewn llety dros dro yn gostwng yn raddol, er fod lefelau'n parhau'n gyndyn o uchel. Ym mis Tachwedd 2025, roedd 3.1 o unigolion mewn llety dros dro fesul 1,000 o bobl o bob oed, o gymharu gyda 3.5 fesul 1,000 ym mis Tachwedd 2024 (Ffigur 2). Ymysg plant dan 16 oed, roedd 4.5 fesul 1,000 yn byw mewn llety dros dro ym mis Tachwedd 2025, i lawr o 5.2 flwyddyn ynghynt.

Er y gostyngiad blwyddyn ar flwyddyn, bu hynny yn ataf. Dros un ar ddeg mis cyntaf 2025, roedd y gostyngiad misol cyfartalog yn nifer yr unigolion yn byw mewn llety dros dro yn 0.3 y cant. Mae hyn yn welliant ar y cyfnod cyfatebol yn 2024, pan oedd y gostyngiad misol cyfartalog yn 0.02 y cant. Mae'r cyfartaledd bron yn sero yn 2024 yn adlewyrchu gwrthosod cynnydd a gostyngiadau fis wrth fis dros y flwyddyn. O gymharu, mae 2025 yn

dangos patrwm mwy cyson o ostyngiadau mis i fis, ond mae hyn yn parhau i ddangos addasiad araf yn hytrach na llacio cyflym ar bwysau ar y system.

Mae parhad y nifer uchel mewn llety dros dro yn awgrymu, er y gall nifer y bobl sy'n mynd i lety dros dro fod yn sefydlogi, mae'r system yn parhau i wynebu cyfyngiadau ar y cyflenwad tai sy'n llesteirio pa mor gyflym y gall aelwydydd adael llety dros dro. Fel canlyniad, mae llety dros dro yn parhau i ddarparu ar gyfer nifer uchel o unigolion ar unrhyw adeg penodol, hyd yn oed wrth i'r prif dueddiad ddangos gwelliant graddol.

## 4. Symud i Lety Hirdymor


Mae'r nifer sy'n symud o lety dros dro i lety hirdymor[6] wedi amrywio dros gyfnod, heb unrhyw dueddiad clir ar i fyny. Mae llety hirdymor yn cynnwys cartrefi cymdeithasol (sy'n eiddo awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) a llety sector rhent preifat. Rhwng mis Ionawr 2024 a mis Tachwedd 2025, cynyddodd nifer yr unigolion a symudodd i lety hirdymor o 631 i 884 y mis, gan awgrymu amrywiaeth yn hytrach na thwf cyson mewn capasiti symud ymlaen (Ffigur 3).

Ym mis Tachwedd 2025 cafodd 704 o unigolion eu gosod mewn llety hirdymor gyda 193 ohonynt yn blant dan 16 oed. Pan gaiff ei fesur o gymharu â maint y boblogaeth llety dros dro, mae hyn yn gyfwerth â thua 6 unigolyn yn symud i lety hirdymor fesul 100 o bobl yn byw mewn llety dros dro, a 8 o blant fesul 100 o blant yn byw mewn llety dros dro (Ffigur 4).


Mae'r cymarebau hyn yn dangos her barhaus. Er bod unigolion yn parhau i symud i lety hirdymor bob mis, mae absenoldeb tueddiad cyson ar i fyny yn awgrymu nad yw'r cyflenwad o lety hirdymor yn ehangu'n ddigon cyflym i ostwng dibyniaeth ar lety dros dro yn sylweddol. Fel canlyniad, mae gostyngiadau yn y boblogaeth llety dros dro yn raddol ac yn sensitif i amrywiadau tymor byr (Ffigurau 3 a 4).

[6] Caiff llety hirdymor ei ddiffinio fel llety addas sy'n debyg o barhau am 6 mis neu fwy. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unrhyw lety interim a ddefnyddir i gyflawni dyletswydd digartrefedd uniongyrchol yn unig.


**Ffigur 1:** Unigolion digartref mewn llety dros dro (mewn 000 oedd)





**Ffigur 2:** Unigolion mewn llety dros dro fesul 000 o bobl




**Ffigur 3:** Unigolion a gafodd eu gosod mewn llety hirdymor




**Ffigur 4:** Unigolion a gafodd eu gosod mewn llety hirdymor fesul 100 o bobl mewn llety dros dro




## 5. Achosion o Leoliadau Digartrefedd mewn Llety Dros Dro

Roedd 1,269 achos o bobl a gafodd eu lleoli mewn llety dros dro yn ystod mis Tachwedd 2025, 7.6 y cant yn is nag ym mis Tachwedd 2024.[7] Roedd tua 19 y cant o leoliadau llety dros dro ym mis Tachwedd 2025 yn ymwneud ag unigolion gyda lleoliad blaenorol o fewn y 12 mis blaenorol, gan ddangos mynediad fwy nag unwaith i'r system. Mae'r mesur yn rhoi golwg byrdymor o lif aelwydydd i'r system llety dros dro, yn wahanol i gyfanswm nifer yr unigolion a gafodd eu lleoli ar adeg penodol. Ar ôl cyrraedd brig yng nghanol 2023, gostyngodd nifer achosion tuag at ddiwedd y flwyddyn honno ac ers hynny maent wedi amrywio dan 1,500 y mis. Bu gostyngiad mawr mewn achosion i 1,002 ym mis Rhagfyr 2024, cyn iddynt gynyddu'n gyflym i 1,332 ym mis Ionawr 2025. Mae'r gostyngiad diweddar ym mis Tachwedd 2025 yn awgrymu pwysau ar i waered ar leoliadau newydd, er fod amrywiaeth fisol yn parhau'n amlwg (Ffigur 5).


Mae mynegi nifer achosion o gymharu â'r boblogaeth mewn llety dros dro yn dangos fod lleoliadau newydd (yn cynnwys mynediad fwy nag unwaith) yn parhau i gynrychioli cyfran sylweddol o gyfanswm y nifer mewn llety dros dro (Ffigur 7). Ym mis Tachwedd 2025, roedd cyfanswm achosion yn 11.7 y cant o unigolion mewn llety dros dro a dros y 23 mis diwethaf, mae achosion wedi bod yn gyfartaledd o 12 y cant o'r unigolion mewn llety dros dro. Hyd yn oed wrth gyda gostyngiad cymedrol ym mhrif ffigur y boblogaeth llety dros dro, mae pobl ychwanegol yn mynd i'r system yn parhau pwysau ar y system, sydd angen trwybwn cyson os yw'r boblogaeth mewn llety dros dro i ostwng ymhellach.

[7] Mae'r term achosion yma yn cyfeirio at nifer y lleoliadau a wnaed yn y mis a bydd yn gyffredinol yn fwy na nifer yr unigolion unigryw a gafodd eu lleoli, gan y gall rhai pobl gael eu lleoli fwy nag unwaith mewn cyfnod o 12 mis.


**Ffigur 5:** Cyfanswm Achosion Misol Unigolion o Leoliadau Digartrefedd i Lety Dros Dro (Mynegai, Ionawr 2024 = 100)




**Ffigur 6:** Achosion Misol Plant Dibynnol o Leoliadau Digartrefedd i Lety Dros Dro (Mynegai, Ionawr 2024 = 100)




**Ffigur 7:** Achosion Misol o Gymharu ag Unigolion mewn Llety Dros Dro



## 6. Asesiad Cyffredinol

O'u cymryd gyda'i gilydd, dengys y data fod y defnydd o lety dros dro yng Nghymru wedi dechrau llacio o'i frig ond mae'n parhau'n uchel. Mae'r gyfradd gostwng wedi gwella o gymharu gyda 2024, eto mae'n parhau'n araf, gan adlewyrchu cyfyngiadau strwythurol o fewn y system tai yn hytrach nag anwadalrwydd byrdymor.

Mae pob rhif yn cynrychioli bywyd a gaiff ei fyw yn nhir neb, ac mae'r gost ddynol yma yn llawer rhy uchel. Mae'r llif aelwydydd i lety hirdymor yn parhau i gyfyngu ar ba mor gyflym y gellir gostwng llety dros dro. Gallwn newid bywydau drwy adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy.

Heb gynnydd cyson mewn capasiti symud ymlaen, mae llety dros dro yn debyg o barhau yn elfen sylweddol o'r system tai, yn arbennig ar gyfer teuluoedd gyda phlant dibynnol. Felly mae'r data yn awgrymu fod gwelliannau diweddar yn dangos cynnydd cronnus yn hytrach na newid sylfaenol yng nghapasiti'r system.

Wrth i ni edrych ymlaen at yr etholiad, mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn galw ar bob plaid wleidyddol i wneud i blant sy'n byw mewn llety dros dro, yn arbennig mewn llety gwely a brecwast, yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol.

**Mae hwn yn alwad i weithredu: rydym angen cynllun dewr a chyraeddadwy i roi diwedd ar argyfwng tai Cymru.**